Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON**
**ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

| RHYBUDD 0 GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR BUDDSODDI A CHONTRACTAU** | | **INVESTMENTS AND CONTRACTS COMMITTEE** |
| **DYDD MAWRTH,**<br>**6 TACHWEDD 2018 at 11.30 o'r gloch yb** | | **TUESDAY,**<br>**6 NOVEMBER, 2018 at 11.30 am** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1,**<br>**SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | | **COMMITTEE ROOM 1,**<br>**COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |
| Swyddog Pwyllgor | **Mrs Mairwen Hughes**<br>**01248 752516** | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS:**

**Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn/ Chair of the Isle of Anglesey Charitable Trust** — **T Ll Hughes MBE**

**Is-Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn/ Vice-Chair of the Isle of Anglesey Charitable Trust** — **R O Jones**

**K P Hughes**
**T Ll Hughes MBE**
**Aled M Jones**
**Gwilym O Jones**
**R Ll Jones**
**Alun Mummery**
**Dafydd Roberts**
**Nicola Roberts**
**Dafydd R Thomas**
**Robin Williams**

# R H A G L E N

**1** **<u>ETHOL CADEIRYDD</u>**

Ethol Cadeirydd.

**2** **<u>ETHOL IS GADEIRYDD</u>**

Ethol Is-Gadeirydd.

**3** **<u>DATGANIAD O DDIDDORDEB</u>**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**4** **<u>COFNODION</u>** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 7 Tachwedd, 2017.

*(Cofnodion wedi eu mabwysiadu gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn a gafwyd ar 12 Rhagfyr, 2017).*

**5** **<u>RHEOLI BUDDSODDI</u>**

Cyflwyno adroddiad gan HSBC Global Asset Management (UK) Limited.
**(ADRODDIAD I'W DOSBARTHU YN Y CYFARFOD)**

**6** **<u>DYRANNU CYLLID AR GYFER GRANTIAU MAWR</u>** (Tudalennau 5 - 6)

Cyflwyno adroddiad gan y Trysorydd.

# Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Mri. K P Hughes, R Ll Jones, G O Jones, Alun W Mummery a Dafydd Roberts |
| **WRTH LAW:** | Y Trysorydd,<br>Swyddog Cymorth / Pwyllgor (SC). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Mri. T Ll Hughes MBE, A M Jones, Dafydd Rhys Thomas a Robin Williams. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr. Richard O Jones – Is-gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn<br><br>Mr. Rupert Cecil, Cyfarwyddwr – Tîm Elusennau HSBC |

---

**1 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd Mr R O Jones yn Gadeirydd.

**2 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd Mr RLl Jones yn Is-Gadeirydd.

**3 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**4 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Tachwedd, 2016.

**5 RHEOLI BUDDSODDIADAU**

Cyflwynwyd – adroddiad HSBC Global Asset Management (UK) Limited am y cyfnod hyd at fis Hydref 2017.

Dywedodd Cyfarwyddwr Tîm Elusennau HSBC eu bod yn adrodd yn chwarterol ar berfformiad cronfa’r Ymddiriedolaeth. Rhoddodd gipolwg i Aelodau'r Pwyllgor ar gefndir y portffolio buddsoddi a nododd fod buddsoddiad Ymddiriedolaethau Elusennol Ynys Môn yn cael ei fuddsoddi yn y Strategaeth Twf ac Incwm sy'n bortffolio aml-ased. Gwerth y portffolio ar 30 Medi, 2017 oedd £22,947,867. Yr elw a ragwelir o’r portffolio oedd 7.67% (gros) gyda 7.36% (net).

Rhoddwyd gwybodaeth ychwanegol a manwl i’r Pwyllgor am ddosbarthiad yr asedau a pherfformiad gwahanol elfennau'r portffolio.

Roedd aelodau'r Pwyllgor yn dymuno cyfleu eu gwerthfawrogiad i HSBC Investment Management am berfformiad eithriadol cronfa’r Ymddiriedolaeth Elusennol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a diolch i'r Cyfarwyddwr – Tîm Elusennau HSBC am fynychu'r cyfarfod.**

## 6 DYRANNU CYLLID AR GYFER GRANTIAU MWY

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â dyrannu cyllid ar gyfer grantiau mwy yn 2018.

Dywedodd y Trysorydd bod Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn wedi neilltuo swm o arian yn 2016 a 2017 i ariannu ceisiadau llwyddiannus am grantiau mwy (dros £8,000). Yn 2016, dyrannwyd £200,000 ac yn 2017 dyrannwyd £350k. Yn 2017 rhoddwyd cyhoeddusrwydd eang i'r broses o wneud cais am arian ac fe arweiniodd hynny at yr Ymddiriedolaeth yn cael 31 o geisiadau gan sefydliadau a oedd yn werth cyfanswm o £1.6m. Ar ôl i'r Pwyllgor Adfywio ystyried a gwerthuso'r ceisiadau roedd 12 ohonynt yn llwyddiannus a dyfarnwyd y cyfan o'r £350k ar ffurf grantiau.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i 3 opsiwn: -

1. Yn seiliedig ar 20% o'r cynnydd yn y gwerth cyfalaf (heb gynnwys gwerth yr arian a drosglwyddwyd i'r Portffolio yn sgil gwerthu safle Rhosgoch) – byddai hyn yn darparu cronfa o £177,000 ar gyfer y grantiau mwy yn 2018.

2. Yn seiliedig ar 20% o'r cynnydd yn y gwerth cyfalaf (gan gynnwys gwerth yr arian a drosglwyddwyd i'r Portffolio yn sgil gwerthu safle Rhosgoch) – byddai hyn yn darparu cronfa o £577,000 ar gyfer y grantiau mwy yn 2018.

3. Cynnal gwerth y gronfa fel yr oedd yn 2017 h.y. £350,000.

Yn dilyn trafodaethau ac ar ôl ystyried yr effaith ar y gronfa petai gwerth y buddsoddiadau yn disgyn **PENDERFYNWYD argymell opsiwn 3 i'r Ymddiriedolaeth Elusennol a bod £350,000 ar gael tuag at gyllido grantiau mwy yn 2018.**

**Mr R O Jones**
**Cadeirydd**

1

This page is intentionally left blank

| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR CONTRACTAU A BUDDSODDI** |
| **DYDDIAD:** | **6 TACHWEDD 2018** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **DYRANNU CYLLID AR GYFER GRANTIAU MWY** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cytuno ar swm i'w ddyrannu ar gyfer grantiau mwy yn 2019** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **TRYSORYDD – YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** |
| **GWEITHREDU:** | **Yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd gan Reolwyr Buddsoddiadau'r Ymddiriedolaeth, penderfynu ar y swm a fydd yn cael ei ddyrannu ar gyfer grantiau mwy yn 2019** |

## 1. CEFNDIR

**1.1** Yn ystod y dair mlynedd ddiwethaf, rhoddodd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn swm o arian o'r neilltu er mwyn cyllido ceisiadau llwyddiannus am grantiau mwy (dros £8,000). Dyrannwyd £200,000 yn 2016 a £350,000 yn 2017 a 2018.

**1.2** Yn achos 2018, hysbysebwyd y broses ymgeisio yn eang ac, o ganlyniad, derbyniodd yr Ymddiriedolaeth 34 o geisiadau gan sefydliadau yn gofyn am gymorth – gyda'r ceisiadau i gyd yn dod i gyfanswm o £1.48m. Wedi i'r Pwyllgor Adfywio asesu ac ystyried y ceisiadau, bu 14 ohonynt yn llwyddiannus a chafodd y swm llawn o £350,000 ei ddyrannu mewn grantiau.

**1.3** Er mai penderfyniad i'r Ymddiriedolaeth lawn yw penderfynu a ydynt yn dymuno neilltuo cyllid ar gyfer grantiau mwy yn 2019, mater i'r Pwyllgor hwn yw penderfynu ar y swm fydd yn cael ei ddyrannu.

## 2. Y FETHODOLEG AR GYFER PENDERFYNU AR WERTH Y GRONFA

**2.1** Ym 2017, ystyriodd y Pwyllgor hwn 3 opsiwn i benderfynu ar y swm i'w ddyrannu:-

- Yn seiliedig ar 20% o'r cynnydd yng ngwerth cyfalaf y portffolio (heb gynnwys gwerth yr arian parod a drosglwyddwyd i mewn i'r portffolio yn ystod y flwyddyn);
- Yn seiliedig ar 20% o'r cynnydd yng ngwerth cyfalaf y portffolio (gan gynnwys gwerth yr arian parod a drosglwyddwyd i'r portffolio yn ystod y flwyddyn);
- Cadw'r swm a ddyrannwyd fel y flwyddyn flaenorol h.y. £350,000.

**2.2** Dylid nodi bod risg bob amser y gall gwerth cyfalaf y buddsoddiadau ostwng ac y gallai dyrannu swm sy'n rhy uchel ar adeg pan fo gwerth cyfalaf y gronfa yn tyfu, gael effaith andwyol ar ddychweliadau ar fuddsoddiadau yn y dyfodol petai gwerth cyfalaf y gronfa'n dechrau gostwng yn sydyn.

**2.3** O'r herwydd, rhaid i'r Pwyllgor gymryd i ystyriaeth gyngor y Rheolwr Buddsoddi cyn penderfynu faint o arian fydd yn cael ei ddyrannu, gan sicrhau bod y gronfa'n ddigon mawr fel y gall yr Ymddiriedolaeth, os yw'n penderfynu gwneud hynny, helpu cynifer o sefydliadau ag sy'n bosibl heb beri risg i'r lefelau incwm y bydd y gronfa'n eu cynhyrchu yn y dyfodol. Bydd y Rheolwr Buddsoddi'n bresennol yn y cyfarfod o'r Pwyllgor hwn i roddi'r cyngor priodol.

## 3. GWEITHREDU ANGENRHEIDIOL

**3.1** Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried cyngor y Trysorydd a'r Rheolwr Buddsoddi a phenderfynu ar y swm a fydd yn cael ei ddyrannu ar gyfer grantiau mwy.

**R MARC JONES**
**TRYSORYDD – YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** **31 HYDREF 2018**